

Huw Irranca-Davies AC/AM  
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol  
Minister for Children, Older People and Social Care



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf: MA - L/HID/044018

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd  
CF99 1NA

18 Medi 2018

Annwyl Lynne,

### **Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Diolch i'r pwyllgor am ystyried Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod y pwyllgor, ac eithrio un Aelod, wedi cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yng ngoleuni'r amser yr ydych wedi'i gymryd i ystyried cynnwys y Bil a rhai agweddau ehangach y cynnig gofal plant, roeddwn am ysgrifennu atoch cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ar 18 Medi, yn nodi ein hymateb manwl i argymhellion y pwyllgor. Wrth wneud hynny, mae rhai o'r pwyntiau a godwyd yn perthyn i bortffolios Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, a bydd y naill a'r llall yn derbyn copi o'r llythyr hwn.

Rwyf wedi rhannu fy ymateb manwl, sydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn, rhwng argymhellion sy'n ymdrin â'r Mesur a'r rhai sy'n mynd i'r afael â'r cynnig a'r materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r sector gofal plant.

Rwyf am ymdrin yn gyntaf â'r argymhellion sy'n ymwneud yn benodol â'r Mesur. Mae Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried y Bil yng Ngham 1 hefyd a gwnaethant nifer o argymhellion am ei gynnwys a chydbwysedd y darpariaethau rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Rwyf wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng adroddiadau'r tri phwyllgor, ond mae'n anochel y bu achlysuron pan oedd rhaid i mi gyd-fynd ag un ochr yn hytrach na'r llall.

O ganlyniad, ni fu'n bosib i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y meysydd hyn yn llawn, fodd bynnag, rwyf wedi cadw at yr egwyddorion a'r rhesymeg sylfaenol cyn belled ag y bo modd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y set fwy o argymhellion ynghylch y cynnig gofal plant ehangach a'r sector gofal plant, rwy'n gwerthfawrogi'r dystiolaeth a gasglwyd gan y pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad ac yn diolch i'r pwyllgor am ei waith diwyd a manwl.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n bwysig fy mod yn gwahaniaethu rhwng yr argymhellion hynny sydd angen gweithredu yn eu cylch ar unwaith a deddfwriaeth a'r rhai sy'n llai sensitif o safbwynt amser. Byddwn yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r pwyllgor wrth i'r cynnig gofal plant ddatblygu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar ei fanteision, o fewn telerau'r ymrwymiad a roddwyd gennym i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn benodol, gyda'ch caniatâd, byddwn yn falch o gael y cyfle i ddychwelyd i'r pwyllgor yn y gwanwyn, gyda chynllun gweinyddol drafft ac i drafod rhai o'r manylion gweithredol y bydd yn eu cynnwys. Byddwn yn croesawu barn y pwyllgor ar ffyrdd y gallem symleiddio'r system blynyddoedd cynnar ar gyfer rhieni, darparwyr gofal plant a phlant fel y gall pob teulu weld yn hawdd pa raglenni fydd o fudd iddynt. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys ystyried lle rydym yn mynd nesaf, unwaith y bydd y cynnig yn ei le.

Nid yw adroddiad terfynol y gwerthusiad annibynnol o flwyddyn gyntaf gweithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar i'w gyhoeddi tan ddiwedd mis Tachwedd ac ni chaiff ei gwblhau tan ychydig cyn y dyddiad hwnnw. Mae'r swyddogion yn gweithio gyda'r gwerthuswyr annibynnol a chlerc y pwyllgor i sefydlu'r hyn y gellir ei rannu cyn y dyddiad hwn.

Hoffwn eich hysbysu hefyd o newid yn y trefniadau cyflwyno ar gyfer ail flwyddyn gweithredu'n gynnar. Yn y flwyddyn gyntaf, ymgwymerodd pob awdurdod lleol â'r broses lawn eu hunain, gan gynnwys asesu ceisiadau a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant.

Yn y cyfnod gweithredu cynnar sy'n weddill, hyd nes y caiff y cynnig ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2020, rydym yn gofyn i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth gydag un awdurdod yn derbyn a phrosesu ceisiadau ar ran eraill a gwneud taliadau perthnasol. Bwriad hyn yw lleihau'r costau suddedig mewn dull nad ydym yn bwrw ymlaen ag ef am byth ac i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau i drethdalwyr.

Bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei ychwanegu at Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil fel pumed opsiwn. Bydd y data'n cael ei rannu cyn gynted ag y bydd ar gael, er na ddisgwyllir iddo wneud gwahaniaeth sylweddol i gydbwysedd y costau rhwng y dewis a ffefrir gennym sef defnyddio CThEM a'r opsiynau eraill.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a chadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AC**

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

## Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) – Cam 1

### Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

#### Argymhellion yn ymwneud â'r Mesur

##### **Argymhelliad 1**

Bod Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, yn rhannu'r holl wybodaeth â phwyllgorau'r Cynulliad sy'n manylu ar ba sail y rhoddir cydsyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i Fil. Dylai'r wybodaeth hon gael ei rhannu pan gyflwynir y Bil (neu cyn gynted ag y bydd ar gael os na dderbynnir cydsyniadau cyn cyflwyno) er mwyn galluogi craffu llawn a phriodol ar ddarpariaethau Bil.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Mae ein dull o rannu gwybodaeth am gysyniadau i'w weld yn ein Llawlyfr Deddfwriaeth, sydd ar gael yn <https://lyw.cymru/docs/legislation/170830-legislation-handbook-cy.pdf>.

Dywed y llawlyfr: "Pan anfonir y Bil at y Llywydd iddi benderfynu arnynt (gweler Pennod 14), dylai'r llythyr eglurhaol oddi wrth y Prif Weinidog nodi pa gydsyniadau sy'n ofynnol a darparu copïau os oes rhai ar gael. Ar yr adeg hon, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, y gallai fod yn amhosibl rhoi hysbysiad ffurfiol o'r holl gydsyniadau."

Roedd llythyr y Prif Weinidog ar 16 Mawrth, a oedd yn gofyn am benderfyniad y Llywydd ynghylch a oedd y Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, yn nodi bod cysyniad Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i'r ddarpariaeth yn adran 8 y Bil yn ymwneud â'r gwelliant i adran 18 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ac i'r darpariaethau perthnasol sy'n ymwneud â rhannu data a throsglwyddo data ymlaen, wedi eu sicrhau. Rhannwyd copi o'r cysyniad yn dilyn hynny fel rhan o'r broses benderfynu.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i adolygu trefniadau gweithio ar gyfer rhannu cysyniadau.

##### **Argymhelliad 2**

Bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, yn amlinellu ei dealltwriaeth o'r "cytundebau ar wahân" y byddai eu hangen rhyngddi hi ei hun a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi pe bai'r cynnig gofal plant arfaethedig yn newid.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bydd Cyllid a Thollau EM yn gweithredu fel ein hasiant mewn perthynas â phenderfynu cymhwysedd ar gyfer ein cynnig gofal plant (y cynnig). Bydd y gwahanol bwerau a hawliau a sefydlir gan y Bil yn cael eu breinio yng Ngweinidogion Cymru, a fydd yn penodi CThEM i ymgymryd â thasgau penodol ar ein rhan. O ganlyniad, byddwn angen i drefniadau fod ar waith i'w galluogi i symud y gwaith hwn ymlaen fel a ganlyn:

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda CThEM yn cwmpasu'r gwaith sydd ei angen i ymgorffori ein cynnig o fewn eu platfformau digidol a rhai nad ydynt yn ddigidol;
- Cytundeb o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fydd yn galluogi CThEM i ymgymryd â swyddogaethau Gweinidogion Cymru;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth pellach sy'n cwmpasu gwaith gweinyddu parhaus y platfform digidol a'r gwasanaethau nad ydynt yn ddigidol.

Bydd y ddau Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn egluro'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth a thelerau ac amodau y trefniadau gweithio rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM, ynghyd ag unrhyw ofynion rhybudd pe baem eisiau gwneud newidiadau i'n cynnig. Mae'r cyfeiriad at gytundebau ar wahân yn y llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cyfeirio at yr angen posib am Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd neu ddiwygiedig, neu drefniant diwygiedig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai newidiadau o'r fath yn digwydd.

### **Argymhelliad 3**

Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Nid yw Llyr Gruffydd AC yn cefnogi'r argymhelliad hwn ar y sail a amlinellir ym mharagraff 57 yr adroddiad hwn.

Rwy'n **nodi'r** argymhelliad hwn.

Rwy'n ddiolchgar am yr ystyriaeth a roddwyd i'r Bil gan y tri phwyllgor a gyfrannodd at graffu arno, ac rwy'n falch bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac eithrio un Aelod, wedi gallu argymhell bod egwyddorion cyffredinol y Bil yn cael eu cytuno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Argymhelliad 6**

Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i fynnu mai Gweinidogion Cymru ddylai wneud y cynllun gweinyddu drwy is-ddeddfwriaeth, i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar sail statudol.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bydd y cynllun gweinyddu yn egluro manylion gweithredol y cynnig. Nid yw'r manylion hyn yn addas ar gyfer ymddangos yn y Bil neu mewn rheoliadau gan y gallent newid wrth i'r cynnig ddatblygu.

Rwyf wedi ymrwymo i dryloywder, a byddwn yn gwerthfawrogi barn y pwyllgor wrth i'r cynllun ddatblygu. Byddaf yn ceisio rhannu cynllun fframwaith cychwynnol gyda'r pwyllgor cyn cyfnod 3, er y bydd rhai agweddau ar y model cyflwyno gweithredol heb gael eu datblygu'n llawn a'u cytuno â rhanddeiliaid erbyn diwedd mis Hydref. Byddwn yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd i'r pwyllgor i drafod y cynllun yn fanylach yn y gwanwyn.

### **Argymhelliad 7**

Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ymestyn ei ddarpariaethau y tu hwnt i rieni sy'n gweithio, i gynnwys rhieni sy'n ceisio gwaith drwy ymgymryd ag addysg a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sicrhau cyflogaeth, i'w diffinio mewn rheoliadau.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Nod y cynnig yw cynorthwyo rhieni sy'n gweithio. Mae gennym raglenni cymorth eraill ar waith sydd wedi'u bwriadu'n arbennig ar gyfer rhieni mewn hyfforddiant ac addysg neu i'r rhai sydd angen cymorth i ddychwelyd i'r gwaith.

Mae pwerau angenrheidiol gan Weinidogion Cymru eisoes i gyflwyno rhaglenni cymorth ychwanegol yn ôl yr angen, ar yr amod bod cyllid perthnasol ar gael.

Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi y gall fod yn ddryslyd i bobl ddeall pa gymorth sydd ar gael a byddaf yn comisiynu darn o waith mewnol i archwilio hyn ymhellach ac edrych ar opsiynau i leihau unrhyw ddryswch a chymhlethdod. Byddwn yn croesawu'r cyfle i ddod â'r gwaith hwn i'r pwyllgor yn y dyfodol a byddwn yn croesawu cefnogaeth y

pwyllgor hefyd ynghyd â'u syniadau am y ffordd orau o ddod â'r gwahanol gynlluniau at ei gilydd, y tu allan i gwmpas y Bil hwn.

### **Argymhelliad 8**

Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i roi pŵer i reoliadau i Weinidogion Cymru ymestyn ei ddarpariaethau i categorïau eraill o riant yn y dyfodol. Dylai unrhyw reoliadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bwriad y cynnig yw cynorthwyo rhieni sy'n gweithio. Cyflwynwyd y Bil i roi'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar waith i gael mynediad at ac asesu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i bennu cymhwysedd ar gyfer y cynnig hwn.

Mae amrywiaeth o raglenni eraill ar waith i roi cymorth i categorïau eraill o rieni, megis PaCE a Dechrau'n Deg. Mae gan Weinidogion Cymru'r pwerau angenrheidiol, o dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i gyflwyno rhaglenni cymorth ychwanegol yn ôl yr angen hefyd.

### **Argymhelliad 9**

Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyllido gofal plant ar gyfer plant cymwys rhieni sy'n gweithio, am gyfnod o 30 awr ym mhob un o 48 o wythnosau mewn unrhyw flwyddyn, neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny (i gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar sydd eisoes yn cael ei hariannu trwy awdurdodau lleol). Dylai'r Bil hefyd gynnwys darpariaeth sy'n galluogi diwygio swm y gofal plant yn y dyfodol trwy reoliadau sy'n destun y weithdrefn uwchgadarnhaol.

Mae cydberthynas gref rhwng yr argymhelliad hwn ac argymhelliad pedwar a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a alwodd am i'r Bil gynnwys ymrwymiad i ddarparu'r cynnig.

Rwyf yn **parhau i archwilio'r opsiynau** sydd ar gael i mi i gyflawni'r argymhellion hyn a'r egwyddorion sy'n sail iddynt.

Byddaf yn ysgrifennu at y pwyllgor i'w ddiweddarau wrth i gynigion ddatblygu ymhellach.

### **Argymhelliad 10**

Bod Llywodraeth Cymru yn gyson yn adolygu oedran y "plant cymwys" a ddylai fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau'r Bil. Mae hyn gyda golwg ar sicrhau naill ai:

- y gellir diwygio'r Bil yn ddiweddarach i gynnwys manylion oedran "plentyn cymwys", os yw'r dystiolaeth a gafwyd o werthusiad y cynllun peilot yn ddiamwys; neu
- bod y rheoliadau cymhwystra yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd ynghylch oedran penodol y "plentyn cymwys", os yw canlyniadau'r gwerthusiad yn amwys yn hyn o beth.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Yn ei adroddiad, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi gofyn i mi gynnwys mwy o fanylion am "plentyn cymwys" ar wyneb y Bil. Rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar opsiynau i gyflawni'r argymhelliad hwn – a chyflwyno gwelliannau i'r llywodraeth – ond rwyf wedi'i gwneud yn glir bod yn rhaid i ni gadw'r hyblygrwydd i ddiwygio oed "plentyn cymwys" pe bai Llywodraeth Cymru'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol.

Credaf y byddai hyn wedi bod yn bosib yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ac rwy'n awyddus nad yw hyn yn cael ei golli.

### **Argymhelliad 11**

Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan y Ddeddf wneud darpariaeth am gyfnod eithrio dros dro (cyfeirir ato hefyd fel "TEP" neu "cyfnod gras").

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n dal i fod o'r farn bod manylion fel hyn yn weithredol eu natur, ac mai o fewn cynllun gweinyddu y dylent fod. Mae'r Bil yn ymwneud â'r fframwaith a'r rhannu data sydd ei angen i benderfynu cymhwysedd unigolyn i gael y cynnig gofal plant.

Byddai cymhwyso cyfnod esemptiad dros dro'n digwydd ar ôl canfod bod rhywun yn gymwys ar gyfer y cynnig, ac ar yr adeg i newid mewn amgylchiadau olygu nad oeddent yn gymwys mwyach.

Byddaf yn ceisio darparu cynllun gweinyddu fframwaith cychwynnol i'r pwyllgor cyn cyrraedd cam 3 a byddwn yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd i'r pwyllgor yn y gwanwyn i drafod y cynllun yn fanylach.

### **Argymhelliad 12**

Bod y Bil yn cael ei ddiwygio i ddarparu:

- y dylai rheoliadau a wneir o dan adran 1 fod yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol; ac
- y dylid gwneud unrhyw newid i reoliadau a wnaed o dan adran 1 gan ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol bod mwy o fanylion ynglŷn â "phlentyn cymwys" a "rhiant sy'n gweithio" yn cael ei roi ar wyneb y Bil, ac mai dim ond os nad yw hyn yn cael ei wneud y dylai'r rheoliadau o dan adran 1 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion baratoi gwelliannau i'r llywodraeth yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

### **Argymhelliad 20**

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw rwymedigaeth newydd a roddir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Bil hwn yn dod gyda'r swm angenrheidiol o arian i'w gyflawni.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ysgwyddo costau beichiau newydd ar lywodraeth leol.

## **Argymhellion ehangach**

### **Argymhelliad 4**

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu canlyniadau'r gwerthusiad o gynllun peilot y cynnig gofal plant cyn dechrau Cyfnod 3 er gwybodaeth i Aelodau wrth iddynt gyflwyno a thrafod gwelliannau.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Rydym yn gweithio gyda'r gwerthuswyr annibynnol i gadarnhau pa wybodaeth allai fod ar gael i'r pwyllgor cyn dechrau Cyfnod 3, gan gynnwys a ellid trefnu deunydd briffio technegol cyfrinachol cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Bydd swyddogion yn cysylltu â chlerc y pwyllgor ynghylch y trefniadau hyn.

Ar y cam cynnar hwn ni fydd modd dangos a yw'r cynnig yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn llawn ai peidio. Dim ond blwyddyn o weithrediad cynnar mewn saith awdurdod lleol y bydd y gwerthusiad yn ei gwmpasu. Bwriedir gwneud gwaith gwerthuso pellach ar weddill y rhaglen gweithrediad cynnar ac ar y rhaglen gyflwyno genedlaethol, a fydd yn darparu tystiolaeth fwy pendant.

Nid oes disgwyl i werthusiad y flwyddyn gyntaf o'r gweithrediad cynnar gael ei gwblhau tan ddiwedd mis Hydref, gyda'r canfyddiadau i'w cyhoeddi ym mis Tachwedd. Bydd y pwyllgor yn nodi nad yw'r amserlen hon yn cyd-fynd â'u hargymhelliad.

Rhoddaf fanylion pellach am y gwerthusiad tymor hwy pan fydd manylebau'r contract wedi'u cwblhau.

### **Argymhelliad 5**

Nad yw Llywodraeth Cymru yn cwblhau manylion y rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn nes bod canfyddiadau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot cynnig gofal plant wedi eu dadansoddi a'u cyhoeddi'n llawn.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Ar yr amod y bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, fy mwriad yw cyflwyno dwy set o reoliadau yng ngwanwyn 2019.

Bydd y set gyntaf yn egluro pwy fyddai'n blentyn cymwys i rieni sy'n gweithio, ynghyd â'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi cais.

Bydd yr ail set yn cwmpasu rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru a thrydydd partion, ynghyd â datgelu'r wybodaeth honno i eraill wedyn. Bydd yr ail set hon o reoliadau yn ddarostyngedig i ganiatâd "Gweinidog priodol" ar ran adran Llywodraeth y DU neu Weinidog y Goron.

Ni fydd rheoliadau drafft ar gael cyn cyhoeddi'r canfyddiadau o'r gwerthusiad annibynnol ym mis Tachwedd.

### **Argymhelliad 13**

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i amlinellu, cyn y ddatl Cyfnod 1, pa drefniadau fydd yn eu lle i sicrhau bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gallu darparu system ymgeisio a gwirio cymhwysra cwbl ddwyieithog (ar-lein ac ar y ffôn) yn unol â darpariaethau'r Bil hwn.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae CThEM wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog mewn perthynas â'r cynnig. Mae swyddogion wedi cyfarfod â CThEM sawl gwaith ac mae trafodaethau



manwl ynglŷn â'n disgwyliadau a gofynion Safonau'r Gymraeg yn parhau. Mae swyddogion wedi cyfarfod â swyddfa'r Comisiynydd Iaith hefyd i drafod hyn a nifer o faterion eraill sy'n ymwneud â'r cynnig.

Rydym ni'n gweithio ochr yn ochr â CThEM a'i bartner National Savings and Investments, i ddatblygu'r gwasanaeth dwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys agweddau digidol ar y broses ymgeisio a darparu gweithredwyr ffôn sy'n siarad Cymraeg i gefnogi elfennau'r cynnig a ddarperir gan CThEM.

### **Argymhelliad 14**

Bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig pe bai'r meini prawf cymhwysra ar gyfer mynediad at gyllid gofal plant yn newid o'r rhai a amlinellir ar wyneb y Bil ac yn y Memorandwm Esboniadol. Dylid ymgymryd â'r gwaith hwn a'i gyhoeddi'n brydlon i lywio trafodaethau Aelodau ar y Bil yn ystod cyfnodau diweddarach neu, os na wneir penderfyniadau ar gymhwysra nes bydd y Bil wedi cwblhau ei daith drwy'r Cynulliad, mewn pryd i lywio gwaith craffu ar y rheoliadau perthnasol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Ar hyn o bryd, nid oes bwriad i newid y meini prawf cymhwysedd mewn perthynas â'r cynnig. Fodd bynnag, bu'n fwriad o'r cychwyn i adolygu a diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wrth i unrhyw wybodaeth newydd ddod i'r amlwg neu os bydd unrhyw beth yn newid.

Fel y nodais yn fy llythyr eglurhaol, byddaf yn ychwanegu pumed opsiwn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r model cyflwyno diwygiedig ar gyfer gweithredu'n gynnar. Yn y bôn, mae hyn yn mireinio'n dewis sylfaenol, sy'n golygu bod rhai awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r cynnig. Gan mai newydd ddechrau y mae'r dull hwn, mae angen rhywfaint o amser arnom i gasglu'r data perthnasol ond nid ydym yn disgwyl iddo gael effaith ar ein dull dewisol o weithio gyda CThEM (sef y dull rhataf o hyd).

Byddaf yn rhannu'r data pan fydd ar gael – ac heb fod yn hwyrach na'r adeg y mae Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Esboniadol diwygiedig, gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, gael ei osod gerbron y Cynulliad cyn Cyfnod 3.

### **Argymhelliad 15**

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n gliriach ei hymrwymiad i sicrhau bod risgiau eithrio digidol yn cael sylw, yn cael eu rheoli ac yn cael eu monitro fel rhan o unrhyw gytundeb ag unrhyw asiant cyflwyno ar gyfer gweinyddu'r system ymgeisio a gwirio cymhwysra a grëir gan y Bil hwn.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n ymwybodol iawn o heriau allgau digidol ledled Cymru. Tra bod blaenoriaethu'r defnydd o systemau digidol ar gyfer y cynnig yn iawn ac yn briodol, mae sicrhau bod yna lwybrau eraill ar gyfer cael mynediad i'r cynnig yn bwysig i Lywodraeth Cymru ac i CThEM.

Mae'r plattform y bydd CThEM yn ei ddefnyddio i reoli ceisiadau am y cynnig eisoes yn derbyn a phrosesu ceisiadau ar gyfer y rhaglen Gofal Plant Di-dreth a arweinir gan Drysorlys EM a'r cynnig gofal plant yn Lloegr a arweinir gan yr Adran Addysg. Gall pobl nad ydynt yn gallu defnyddio'r system ddigidol wneud cais dros y ffôn a gallant ofyn

iddynt gysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy'r post yn ôl eu dymuniad. Mae CthEM wedi cytuno i weithredu'r un gwasanaeth ar gyfer cynnig gofal plant Cymru.

Bydd cyfathrebu'n ganolog i sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt wneud cais. Mae CThEM yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y DU i godi ymwybyddiaeth o'u cynnig gofal plant ymhlith y rhai a allai gael eu hallgáu'n ddigidol. Mae wedi creu taflen sy'n targedu cwsmeriaid sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol sydd ar gael gan ddarparwyr gofal plant, canolfannau Cyngor ar Bopeth ac eraill. Disgwyliaf i ddull tebyg gael ei ddefnyddio mewn perthynas â'n cynnig gofal plant ni.

### **Argymhelliad 16**

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol i amlinellu, cyn y ddatl Cyfnod 1, pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gallu cyfeirio rhieni yn glir at y cymorth arall y gallent fod yn gymwys i'w gael. Dylai hyn gynnwys asesiad o ddichonoldeb (o ran amserlenni, costau ac eglurder gwybodaeth) diweddarau gwefan Dewisiadau Gofal Plant Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gynnwys manylion y cynnig yng Nghymru.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae cyfathrebu'n allweddol i lwyddiant y cynnig gofal plant. Gwyddom fod yna ddryswch ymhlith rhieni am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn genedlaethol ac yn lleol, ac o fewn y sector gofal plant ynglŷn â sut mae'r ffrydiau cyllido amrywiol yn gweithio.

Dyma pam rydym yn gweithio gyda CThEM i drefnu'r siwrnai i rieni wrth iddynt wneud cais am y cynnig. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut i atgyfeirio rhieni at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gael gwybod am fathau eraill o gymorth y gallant ei gael.

Mae CThEM wrthi'n diweddarau Dewisiadau Gofal Plant eisoes i'w gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr yn y gwledydd datganoledig – nid yw hwn yn waith y byddai'n codi tâl ar Lywodraeth Cymru amdano. Fodd bynnag, y bwriad oedd mai oes gymharol fyr fyddai gan Dewisiadau Gofal Plant ac ni ellir gwarantu y bydd ar gael y tu hwnt i fis Mawrth 2020. O ganlyniad, rydym yn edrych ar opsiynau eraill, gan gynnwys newidiadau i'r Gyfrifiannell Gofal Plant sydd ar gael ar wefan gov.uk ar hyn o bryd, y gall rhieni ei defnyddio i asesu'n gyflym pa gynllun sydd orau iddyn nhw'n ariannol. Ar hyn o bryd mae CThEM yn edrych ar y costau.

Byddwn yn ymgymryd ag ymgyrch gyfathrebu ledled Cymru cyn cyflwyno'r cynnig yn genedlaethol yn 2020, gan egluro manylion y cynnig a sut i wneud cais. Mae gwaith i asesu gofynion yr ymgyrch honno, a fydd yn destun ymarfer tendro o dan ein prosesau caffael, ar y gweill. Rydym yn rhagweld y bydd negeseuon yn cael eu dosbarthu ar draws casgliad o gyfryngau amrywiol, yn ogystal â gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a byddwn yn fwy na pharod i rannu manylion ein cynigion gyda'r pwyllgor yn y Gwanwyn pan fyddant wedi'u datblygu ymhellach.

### **Argymhelliad 17**

Bod Llywodraeth Cymru yn darparu, cyn dechrau Cyfnod 3, Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Hawliau Plant. Dylai'r Asesiad hwn ystyried effaith y Bil ar blant *yn gyffredinol*, nid dim ond y rhai sy'n gymwys o dan ei ddarpariaethau ar gyfer y cynnig gofal plant. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni pryderon y Comisiynydd Plant y gallai canlyniad anfwriadol sylw'r Bil ar blant cymwys i rieni sy'n gweithio gynyddu'r bwch rhwng ein plant mwyaf breintiedig a difreintiedig o ran datblygiad, eu parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Rwy'n deall bod y pwyllgor yn credu bod hyn yn bwysig, yn enwedig yng ngoleuni pryderon y Comisiynydd Plant y gallai fod canlyniad anfwriadol i ffocws y Bil ar blant cymwys rhieni sy'n gweithio, sef y gallai fod cynnydd yn y bwlch cyrhaeddiad o ran datblygiad plant, parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad addysgol rhwng ein plant mwyaf breintiedig a difreintiedig.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil yn canolbwyntio ar ddarpariaethau'r Bil ei hun ac felly mae'n berthnasol i'r plant hynny sy'n gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant.

Mae asesiadau effaith yn cael eu cynnal ar gyfer y cynnig gofal plant, ac yn unol ag arfer gorau, cânt eu diweddarau'n rheolaidd. Rydym wrthi'n eu crynhoi yn asesiad effaith integredig. Byddwn yn fwy na pharod i rannu hyn gyda'r pwyllgor pan fydd yn gyflawn, ond bydd hyn ar y sail bod yr asesiad effaith yn ddogfen fyw ac y bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud wrth i'r gwerthusiad o'n rhaglen gweithrediad cynnar barhau.

### **Argymhelliad 18**

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i defnyddio, fel rhan o'r gwerthusiad o'r cynnig gofal plant, i asesu effaith ei drefniadau ar blant sy'n cael eu geni yn ystod misoedd yr haf, i lywio ffurf y cynnig gofal plant a fydd yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn y pen draw.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae mesur datblygiad plant yn gymhleth, oherwydd, ymhlith pethau eraill, mae yna lawer o ddylanwadau a all fod yn effeithio ar ddatblygiad. Dyna pam nad oedd effeithiau'r cynnig ar ddatblygiad plant wedi'u cynnwys yn y fanyleb ar gyfer gwerthuso'r flwyddyn gyntaf o weithrediad cynnar, heb sôn am yr effeithiau ar blant a aned yn yr haf fel carfan benodol. O ganlyniad, ni fydd modd cynnwys hyn yn yr adroddiad sy'n ymwneud â gwerthuso'r flwyddyn gyntaf o weithrediad cynnar gan na allwn gasglu'r data'n hyderus yn ôl-weithredol.

Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y byddwn yn gofyn i'r gwerthuswyr ei ystyried ar gyfer yr ail flwyddyn o weithrediad cynnar, sef yr adroddiad y byddem yn ei ddisgwyl ym mis Tachwedd 2019.

Yn ogystal â hyn, rydym yn dechrau penderfynu ar fanylion y gwerthusiad o'r cynnig yn y tymor hirach, yn dilyn ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2020. Rydym yn gweithio gyda banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL)<sup>1</sup> i gael mynediad at isadeiledd diogel ar gyfer cysylltu data. Dylai hyn ein galluogi i ddadansoddi gwybodaeth am blant sy'n elwa ar y cynnig yn erbyn data arall amdanynt. Gan dybio bod y data ar gael, dylem allu ystyried a yw'r tymor y caiff plentyn ei eni ynddo'n ystadegol debygol o gael dylanwad ar ei ddeilliannau.

Bydd yn cymryd amser i roi'r systemau a'r gofynion data yn eu lle, ac i'r canlyniadau a fwriadwyd o'r cynnig gael eu gwireddu. Efallai na fydd gennym dystiolaeth bendant erbyn yr adeg y bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno'n llawn yn genedlaethol ond mae hyn yn rhywbeth y gallwn ddychwelyd ato wrth i'r cynnig fod ar gael yn fwy eang.

### **Argymhelliad 19**

Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cyn y ddadl Cyfnod 1:

---

<sup>1</sup> <https://saildatabank.com/>

- sut cyfrifwyd bod nifer y plant a fyddai'n gymwys o ran y ffaith bod eu rhieni yn gweithio yn 40,000, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol; ac
- a geisiwyd amcangyfrif nifer y plant a fyddai'n gymwys yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd, ynteu ai dim ond cyfanswm nifer y plant tair oed (yn ogystal â phlant pedair oed) a ddefnyddiwyd.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae Gartner, yr ymgynghoriaeth annibynnol a ddefnyddiwyd gennym i ddarparu'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, wedi amcangyfrif y byddwn yn derbyn tua 40,000 o geisiadau – mae hyn yn cynnwys ceisiadau ar gyfer plant cymwys a cheisiadau anghymwys, a fydd yn cael eu gwrthod. Mae'r ffigur hwn wedi'i gymhwysu'n gyson ar draws yr holl opsiynau a gostiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, felly gellir gwneud cymariaethau dibynadwy rhwng senarios.

Rydym wedi defnyddio nifer o setiau data fel a ganlyn:

- Er mwyn deall nifer y plant tair a phedair oed, defnyddiwyd yr ystadegau swyddogol diweddaraf o amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru (2016) fel y cyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (68,000).
- Er mwyn amcangyfrif nifer y rhieni sy'n debygol o fod yn gymwys, fe wnaethom ystyried data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a ddarparodd gyfradd cyflogaeth ac enillion rhieni plant tair a phedair oed (tua 62%).

Cafwyd y ffigur o 40,000 trwy ystyried y boblogaeth tair a phedair oed yng Nghymru ar unrhyw adeg, a nifer y plant hynny sydd â rhieni sy'n debygol o fod yn gymwys.

Rydym wedi ystyried y mis y mae plant yn cael eu geni hefyd (yn seiliedig ar ddata ONS eto), ac wedi modelu'r nifer o wythnosau y gallent fod yn gymwys ar gyfer y cynnig yn seiliedig ar y tymor y maent yn troi'n dair oed a'r ffordd y darperir Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen yn eu hardal awdurdod lleol (gan fod y cynnig hyd at 30 awr, ac yn amrywio yn dibynnu ar yr hawl i addysg gynnar a ddarperir yn lleol).

## Argymhelliad 21

Bod Llywodraeth Cymru yn neilltuo cyfran o'i chyllideb ar gyfer y cynnig gofal plant i ddarparu cymorth ychwanegol rhwng nawr a chyflwyno'r cynnig i bawb er mwyn hwyluso cynnydd mewn cydleoeli darpariaeth gofal plant a darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar. Dylai hyn gynnwys cymhellion i'r sector nas cynhelir er mwyn cynyddu ei ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Rydym wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu helaeth gyda rhieni a darparwyr gofal plant mewn perthynas â'r cynnig. Un o'r materion a godwyd yn gyson gan rieni yw'r her y maent yn ei hwynebu o ran cludo plant o'u hawl addysg gynnar i'w darparwr gofal plant, lle nad ydynt ar gael yn yr un lleoliad. Mae hyn yn bryder i ddarparwyr gofal plant hefyd, sy'n awyddus yn aml i gynnig agweddau addysg a gofal plant y cynnig.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y cynnig mor glir a hawdd â phosib i bobl gael mynediad iddo – rhan allweddol o hyn yw sicrhau ei fod yn gweithredu'n ddi-dor.

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddais raglen grant cyfalaf o £60 miliwn, a gaiff ei rannu dros dair blynedd (2018-21). Y prif bwrpas yw hwyluso a chefnogi cydleoeli'r ddarpariaeth addysg gynnar a gofal plant lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i "gyflwyno model newydd o ganolfannau dysgu

cymunedol a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau, megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o amgylch y diwrnod ysgol".

Rwy'n disgwyl gwneud cyhoeddiadau ynghylch dyraniadau cyllid yn ddiweddarach eleni a byddwn yn croesawu'r cyfle i ddychwelyd i'r Pwyllgor gyda mwy o fanylion bryd hynny. Byddwn yn fwy na pharod hefyd i hwyluso ymweliad gan y pwyllgor i leoliadau a ariennir trwy raglenni cyfalaf eraill Llywodraeth Cymru, megis Dechrau'n Deg, fel y gallant weld y model yr ydym yn gobeithio ei ailadrodd.

### **Argymhelliad 22**

Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gost/cyfraddau tâl ar draws lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg y blynyddoedd cynnar ac elfen gofal plant Dechrau'n Deg. Dylid rhoi sylw penodol i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd a delir fesul awr ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Nid wyf yn bwriadu cynnal adolygiad i gysoni'r cyfraddau cyflog ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg yng Nghymru, ond byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

O'r tair rhaglen a grybwyllir, dim ond y gyfradd a delir mewn perthynas ag elfen gofal plant y cynnig a gaiff ei phennu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfraddau fesul awr a delir i leoliadau nas cynhelir sy'n cyflwyno Dechrau'n Deg ac addysg gynnar yn cael eu trafod gan awdurdodau lleol unigol ac felly, gallant amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg mewn lleoliadau a gynhelir yn talu cyflogau i staff, yn hytrach na chyfraddau fesul awr, ac felly yn aml ni allant briodoli cyfradd tâl fesul awr. Mae hyn yn debyg i sefyllfa awdurdodau lleol sy'n darparu addysg gynnar trwy leoliadau a gynhelir, lle mae'r cyllid yn rhan o gyllideb gyffredinol yr ysgol.

Gall cymharu cyfraddau tâl a delir i ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg gyda darparwyr addysg a gofal plant eraill fod yn broblem am y rhesymau canlynol:

- Y cymarebau staffio uwch sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy i dair oed.
- Disgwylir i wasanaethau Dechrau'n Deg fod o ansawdd uwch na'r ddarpariaeth gyffredinol ac fe'u cyflwynir ar sail rhan amser, sef 2.5 awr y dydd.

Bwriedir gwneud gwaith ychwanegol er mwyn llywio cyfradd y cynnig. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi casglu data gan ddarparwyr yn y gorffennol ar faint a godir ar rieni neu warcheidwaid am ofal plant ar gyfer plant dan bump oed, ac mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y gofynion yn y dyfodol o ran gwybodaeth am gostau/cyfraddau ar draws lleoliadau mewn partneriaeth ag AGC.

Byddwn yn dysgu hefyd o'r astudiaethau achos o gostau a gynhaliwyd yn Lloegr gan yr Adran Addysg, a disgwylir ei hadroddiad yn hydref 2018.

### **Argymhelliad 23**

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol sy'n diffinio ystyr "darpariaeth ddigonol o addysg feithrin" i warchod rhag unrhyw risg y bydd llai na'r swm cyfredol o addysg y blynyddoedd cynnar yn cael ei ddarparu gan bob awdurdod lleol unwaith y bydd y cynnig gofal plant ar waith.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yw'r cyfrifoldeb am ddarparu addysg gynnar trwy ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen.

Nid yw'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer addysg gynnar wedi newid ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu cyhoeddi, fodd bynnag, rydym yn derbyn bod y cyd-destun polisi wedi newid yn sylweddol gyda chyflwyniad y cynnig. Er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun polisi sy'n newid, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ganllawiau diwygiedig o dan adran 118(2)(b) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ar 14 Medi 2018.

<https://beta.gov.wales/foundation-phase>

Mae'r canllawiau diwygiedig yn gwbl glir bod addysg ran-amser yn golygu o leiaf 10 awr yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Nid oes unrhyw awdurdod lleol yn darparu llai na'r 10 awr o isafswm oriau addysg gynnar, fel y nodir yn y canllawiau gwreiddiol, ac mae llawer yn darparu mwy.

### **Argymhelliad 24**

Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn i fyfyrion a gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd o werthusiad y fframwaith arolygu ar y cyd, gyda'r bwriad o drafod trefniadau mwy syml.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae swyddogion wedi cyfarfod ag Estyn ag AGC i drafod peilot y system arolygu ar y cyd ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir gan awdurdodau lleol i ddarparu addysg ar gyfer plant tair a phedair oed. Dywed Estyn ac AGC bod y peilot wedi bod yn llwyddiannus gyda phrofiadau'n gadarnhaol i raddau helaeth ar gyfer darparwyr a staff, a chefnogir hyn gan y gwerthusiad a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad a Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru.

Bydd AGC ac Estyn yn cynnal arolygiad ar y cyd o ddarparwyr nas cynhelir unwaith y byddant mewn cyfnod o chwe blynedd a byddant yn defnyddio fframwaith arolygu ar y cyd cyffredin i alluogi gwell cydlynid mewn trefniadau arolygu. Bydd yr holl broses o'r ymweliad arolygu, yr adborth i ddarparwyr, a sicrhau ansawdd yn cael ei hintegreiddio a'i chynnal ar y cyd gan AGC ac Estyn. Cyhoeddir y canlyniadau arolygu ar wefannau AGC ac Estyn mewn un adroddiad a byddant yn cynnwys dyfarniadau yn erbyn pob thema. Bydd hyn yn symleiddio trefniadau ond nid yn cyfaddawdu dyletswyddau a rhwymedigaethau deddfwriaethol yr arolygiaethau. Rhagwelir y bydd yr adolygiadau'n cychwyn ym mis Ionawr 2019.

### **Argymhelliad 25**

Bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl Cyfnod 1, yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwneud â'r cynnig gofal plant yn ei adroddiad ar ei ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, gan gynnwys i'r argymhellion hynny sy'n ymwneud yn benodol â gofal plant. Cyhoeddir yr ymateb yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

## Argymhelliad 26

Bod Llywodraeth Cymru yn dileu'r hawl i ddarparwyr wneud cais am daliadau ychwanegol.

### Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r farchnad gofal plant ledled Cymru yn un amrywiol, gydag amrywiaeth o ddarparwyr yn cynnig gwahanol wasanaethau yn seiliedig ar anghenion lleol. Ar unrhyw un adeg mae oddeutu 50% o ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda AGC yn warchodwyr plant, ond mae tua 62% o leoedd gofal plant ar gyfer plant dan bump oed o fewn meithrinfeydd dydd<sup>2</sup>. Mae darparwyr yn cynnig gwahanol wasanaethau, gydag amrywiadau'n dibynnu ar eu horiau gweithredu; y gwasanaethau sydd ar gael ar eu safle a'r model busnes a ddefnyddiant.

Mae darpariaeth bwyd a byrbrydau yn enghraifft dda o hyn. Er bod gan y mwyafrif sylweddol o feithrinfeydd dydd gyfleusterau i ddarparu bwyd a byrbrydau ar y safle, nid yw'r un peth yn wir bob amser am leoliadau gofal sesiynol, megis Cylchoedd Meithrin, a all fod yn gweithredu mewn neuadd eglwys sydd heb gyfleusterau arlwyio sydd wedi'u trwyddedu a'u cymeradwyo'n llawn. Efallai na fydd rhai gwarchodwyr plant am gofrestru eu ceginau domestig gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac felly gallant ddewis peidio â darparu gwasanaeth sy'n cynnwys arlwyio hefyd. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfraddau y codant. Mae'r un peth yn wir am gostau cludiant, a fydd yn amrywio yn ôl pellteroedd, costau tanwydd a'r math o gludiant.

Pan oeddem yn ystyried y dystiolaeth ar gyfraddau, daeth yn amlwg bod gennym dri dewis:

- Talu cyfradd mewn perthynas â'r gofal plant, a chaniatáu i ddarparwyr godi tâl ar rieni am wasanaethau ychwanegol a gynigir megis bwyd a chludiant;
- Talu cyfradd a oedd yn cynnwys bwyd a chludiant i bob darparwr, boed y darparwr yn cynnig y gwasanaeth hwnnw ai peidio; neu
- Talu gwahanol gyfraddau i ddarparwyr yn dibynnu ar y gwasanaethau a gynigiwyd ganddynt.

Buom yn trafod yr opsiynau hyn gyda'r sector gofal plant a chydag awdurdodau lleol. Fe wnaethom edrych ar y gwersi sy'n dod i'r amlwg yn Lloegr hefyd, lle mae cyfradd amrywiol yn cael ei thalu yn dibynnu ar leoliad y lleoliad, ond mae symiau ychwanegol am fwyd a chludiant yn cael eu codi ar rieni. Ein casgliad oedd bod un gyfradd yn fwy tryloyw, ac yn haws i'r sector a'r rhieni ei deall.

Fodd bynnag, wrth ganiatáu i dâl ychwanegol gael ei godi am fwyd a chludiant, roeddem yn ymwybodol y gallai hynny olygu costau sylweddol i rieni, a dyma pam y gwnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd sy'n pennu uchafswm i'r gyfradd ar gyfer bwyd. Mae hyn yn wahanol iawn i Loegr lle nad oes unrhyw ganllawiau ar waith ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod rhieni'n wynebu taliadau ychwanegol o fwy na £15 y dydd.

Byddai dileu'r hawl i godi ffioedd ychwanegol am eitemau megis bwyd a chludiant yn golygu y byddai'n rhaid i'r costau hyn gael eu cynnwys yn y gyfradd a delir i ddarparwyr gan Lywodraeth Cymru. At hynny, byddai angen cyfradd amrywiadwy er mwyn sicrhau bod yr hyn rydym yn ei dalu'n adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir, gan ddod â chymhlethdod ychwanegol ar adeg pan rydym hefyd yn wynebu galw i safoni cyfraddau ar draws detholiad o raglenni blynyddoedd cynnar.

---

<sup>2</sup> Yn seiliedig ar ddata Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru 2016

Byddaf yn parhau i adolygu'r mater o gostau ychwanegol, a byddaf yn edrych ar hyn eto fel rhan o'r adolygiad o'r gyfradd cyn cyflwyno'r cynnig yn genedlaethol. Fodd bynnag, nid oes gennyf fwriad i'w dileu ar hyn o bryd.

### **Argymhelliad 27**

Bod Llywodraeth Cymru yn asesu, fel mater o flaenoriaeth, sawl darparwr sy'n codi taliadau ychwanegol o fewn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar a pham maent yn gwneud hynny.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn

Mae gwybodaeth am daliadau ychwanegol yn cael ei chasglu fel rhan o'r arolygon rhieni a darparwyr sy'n cael eu cynnal er mwyn gwerthuso blwyddyn gyntaf gweithrediad cynnar. Byddwn mewn sefyllfa well i asesu a yw taliadau ychwanegol yn cael eu codi ai peidio, a lefel unrhyw daliadau, yn yr hydref. Rhoddaf ddiweddariad ar y mater hwn wrth i'r gwaith ar y cynnig ddatblygu, ac fel y nodir uchod, byddaf yn parhau i adolygu'r mater o gostau ychwanegol.

### **Argymhelliad 28**

Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried, yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar, i ba raddau mae darparwyr yn codi taliadau ychwanegol, gan godi'r gyfradd fesul awr o £4.50 yn ôl yr angen er budd cynaliadwyedd darparwyr a sicrhau eu bod yn cael eu had-dalu am wir gost eu darpariaeth.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Roedd y gyfradd a bennwyd ar gyfer gweithredu'r cynnig yn gynnar yn seiliedig ar wybodaeth am daliadau a godwyd a chyfraddau yn 2016. Byddwn yn adolygu hyn cyn cyflwyno'r cynnig yn genedlaethol yn 2020, gan ystyried llu o ffactorau, gan gynnwys effaith y cyflog byw cenedlaethol ac amodau ehangach y farchnad. Byddaf yn parhau i adolygu'r mater o gostau ychwanegol.

### **Argymhelliad 29**

Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu, cyn y ddadl Cyfnod 1, y trafodaethau y mae wedi eu cynnal gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch y costau a'r amserlenni tebygol sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i'r cap incwm, ac ar ba sail mae'r Gweinidog wedi datgan y gallai newid o'r fath fod yn bosibl yn y dyfodol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae swyddogion wedi trafod y trothwy enillion uchaf presennol o £100,000 gyda CThEM a goblygiadau terfyn enillion uchaf llai. Mewn egwyddor, nid yw cyfradd wahanol yn broblem ym marn CThEM. Fodd bynnag, mae yna ystyriaethau ymarferol y mae'n rhaid eu hystyried.

Ein bwriad wrth ddefnyddio CThEM fel ein hasiant ar gyfer prosesu ceisiadau ar gyfer y cynnig, yw defnyddio'r platfformau presennol - y rhai digidol a'r rhai nad ydynt yn ddigidol - sydd gan CThEM ar gyfer ceisiadau ar gyfer Gofal Plant Di-dreth a'r cynnig gofal plant yn Lloegr. Mae'r naill blatfform a'r llall wedi'u hadeiladu o amgylch trothwy enillion uchaf o £100,000. Adeg ein trafodaethau, dywedodd CThEM y byddai gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r platfformau digidol a'r rhai nad ydynt yn ddigidol yn golygu costau ychwanegol o oddeutu £1 miliwn. Byddai hon yn gost untro gychwynnol. Fodd bynnag, roedd yn amcangyfrif bras iawn, yn dibynnu i raddau helaeth ar yr angen am waith ychwanegol i asesu maint y newidiadau angenrheidiol yn llawn, oedd yn cynnwys mwy o gydymffurfiaeth a galwadau ffôn oherwydd dryswch rhieni. Nid ydym wedi gofyn i



CThEM am ddadansoddiad mwy manwl o oblygiadau cymhwysu cap gwahanol yng Nghymru ar y costau.

Yn fwy diweddar, mae CThEM wedi cadarnhau y gallai newid o'r fath arwain at oedi o hyd at 12 i 18 mis hefyd wrth gyflwyno'r plattfformau digidol a'r rhai nad ydynt yn ddigidol i gefnogi'r cynnig.

Bydd rhieni sy'n cael mynediad at y cynnig yng Nghymru yn gallu cael mynediad at Ofal Plant Di-dreth yr un pryd hefyd. Bydd alinio ein cynnig gofal plant a Gofal Plant Di-dreth yn lleihau'r risg o ddryswch ymhlith rhieni a darparwyr naill ochr y ffin a'r llall ac yn creu ymdeimlad o degwch a chydraddoldeb.

Os oes gwersi i'w dysgu o flwyddyn gyntaf gweithrediad cynnar y cynnig neu pan fyddwn ni'n cyflwyno ein cynnig yn genedlaethol, byddwn yn adolygu'r meini prawf cymhwysedd ac yn ystyried addasiadau fel sy'n briodol.

### **Argymhelliad 30**

Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun peilot y cynnig gofal plant i lond llaw o'r wardiau mwy cyfoethog yn yr Awdurdodau Lleol presennol sy'n Weithredwyr Cynnar, i brofi i ba raddau y mae'r cynnig yn parhau i fod yn un a gymerir i raddau helaeth gan y rhai sy'n ennill llai na'r cyflog cyfartalog canolrifol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae'r cynnig ar gael mewn 13 awdurdod lleol ledled Cymru bellach, gyda'r cynnig yn dechrau cael ei gyflwyno yng Ngheredigion, Conwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Torfaen a Wrecsam ym mis Medi 2018. Bydd y gwaith o'i gyflwyno yng Nghaerdydd yn cychwyn yn ddiweddarach y tymor hwn. Mae hyn yn cynnwys rhai o'r wardiau mwy cefnog yng Nghymru, gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fel sail ar gyfer yr asesiad hwnnw. Bydd hyn yn rhoi rhagor o dystiolaeth am y gyfradd fesul awr a ddefnyddir ar gyfer y cynnig ar hyn o bryd.

Mae'r cynlluniau ar gyfer dechrau darparu yn yr awdurdodau sy'n weddill yn datblygu'n dda ac rwy'n gobeithio gwneud cyhoeddiad ar amseru yn ddiweddarach y mis hwn, yn amodol ar gwblhau'r trafodaethau hynny.

### **Argymhelliad 31**

Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad sydd i ddod (ac, os caiff ei dderbyn, unrhyw ddata sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i argymhelliad 30), yn adolygu'r cap incwm o £100,000 fesul rhiant.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn

Rwyf wedi ymrwymo'n flaenorol i gadw'r mater hwn dan ystyriaeth. Os teimlwn fod angen ailedrych ar hyn ar unrhyw adeg, yna rwy'n fwy na pharod i wneud hynny. Byddai hyn yn gofyn am drafodaeth gyda CThEM am y gost a'r amser sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i'r plattfformau digidol a'r rhai nad ydynt yn ddigidol ar gyfer asesu cymhwysedd, fel yr amlinellir uchod.

### **Argymhelliad 32**

Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos y defnydd o gynllun peilot y cynnig gofal plant yn yr Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar ac yn cyhoeddi manylion y gwariant o fis Mawrth i fis Awst 2018 cyn y ddadl Cyfnod 1 ym mis Medi.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn

Mae Llywodraeth Cymru'n monitro gweithrediad cynnar yn fanwl. Fodd bynnag, ni dderbynnir ceisiadau ariannol gan awdurdodau ar gyfer mis Awst tan ar ôl y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol. Rwy'n fwy na pharod i rannu data gyda'r pwyllgor pan fydd ar gael a byddaf yn ysgrifennu eto gyda manylion y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig a gwariant am y flwyddyn gyntaf y gweithrediad cynnar cyn gynted ag y bo modd.

Bydd dadansoddiad o'r data monitro yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r adroddiad gwerthuso ar weithrediad cynnar ym mis Tachwedd 2018.

### **Argymhelliad 33**

Bod Llywodraeth Cymru, ar fyrder, yn ailystyried gallu ysgolion i gyflawni'r cynnig gofal plant llawn yn uniongyrchol.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â chofrestru ysgolion ar gyfer darparu gofal plant i'w gweld yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Byddaf yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn yn yr hydref a byddem yn disgwyl i fwy o wybodaeth ynghylch y pryderon hyn ddod i'r amlwg fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Byddwn yn croesawu'r cyfle i rannu'r ymatebion gyda'r pwyllgor.

Mae modd i ysgolion gofrestru i ddarparu gofal plant ar y safle ar hyn o bryd, yn amodol ar glustnodi person cyfrifol.

### **Argymhelliad 34**

Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canfyddiadau ei adolygiad o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 cyn dechrau Cyfnod 3, er mwyn llywio gwaith cyflwyno ac ystyried gwelliannau yr Aelodau.

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth mewn perthynas â Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn yr hydref. Byddwn yn croesawu'r cyfle i rannu'r ymatebion gyda'r pwyllgor. Fodd bynnag, nid wyf yn disgwyl i'r alwad am dystiolaeth gael ei chwblhau cyn Cam 3.

### **Argymhelliad 35**

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cymorth cyfalaf i'r sectorau a gynhelir a'r sectorau nas cynhelir.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Mae awdurdodau lleol wedi cael cais i gyd-drefnu ceisiadau am gyllid cyfalaf mewn perthynas â'r cynnig, gan weithio gyda sectorau a gynhelir a rhai nas cynhelir. Tra bydd y rhaglen gyfalaf yn talu am 100% o'r costau, rhoddir blaenoriaeth i ariannu lleoliadau gofal plant sy'n rhan o brosiect llawer mwy (lle bo'n briodol) sy'n defnyddio ffynonellau ariannu eraill, megis Ysgolion yr 21ain Ganrif neu arian Rhaglen Addysg neu'r Gymraeg.

Pan fydd lleoliad newydd yn cael ei ddatblygu (hyd yn oed o fewn tir presennol ysgol) dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â'r sector gofal plant a dim ond lle nad oes unrhyw opsiwn ymarferol arall y dylai fod mewn lleoliad a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Ni fydd cyllid ar gael ar gyfer darpariaeth a fyddai'n cystadlu'n uniongyrchol â'r

sector nas cynhelir a dim ond lle mae prosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y buddsoddiad y caiff darparwyr preifat eu hariannu.

### **Argymhelliad 36**

Bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn fanwl i gyfrifiadau Gofal Cymdeithasol Cymru o ddiffyg yn y gweithlu fel y manylir ym mharagraff 324 yr adroddiad hwn. Dylid darparu'r ymateb hwn cyn y ddadl Cyfnod 1, er mwyn llywio ystyriaethau'r Aelodau ynghylch y graddau y bydd pwrpas datganedig y Bil o annog rhagor o bobl yn ôl i'r gwaith yn cael ei effeithio os nad oes gan y sector y capasiti i ddarparu gofal plant i bob teulu cymwys.

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn.

Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun deng mlynedd ar gyfer y gweithlu *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*. Ei nod yw proffesiynoli'r sector gofal plant i ddod yn un y mae cymdeithas yn ei adnabod fel sector sy'n cynnig gofal plant o ansawdd uchel, sy'n hyblyg a fforddiadwy ac yn cydnabod gweithlu'r sector fel un medrus iawn.

Cydnabyddir yn eang bod y sector yn cael ei ystyried yn sector sgiliau isel a thâl isel yn aml, ac yn un mae rhieni'n ei ystyried yn werthfawr ac yn barod i dalu am eu gofal plant. Er mwyn cydnabod yr angen i annog newid diwylliant ar draws y sector ac i gydnabod rôl hanfodol y sector fel galluogydd economaidd - sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gallu cael mynediad at waith ac a pharhau ynddo - mae'r cynllun yn rhoi ymrwymiad i flaenoriaethu cymorth buddsoddi i annog y sector i ddatblygu ei gapasiti a'i allu i dyfu'n fwy cynaliadwy.

Felly yn ystod tair blynedd gyntaf ei weithrediad, bydd y cynllun gweithlu'n datblygu dull wedi'i dargedu at gymorth busnes a chymorth sgiliau. Mae'r dull hwn ar y gweill, a dyma ambell enghraifft o'r gwaith sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd:

- Bydd rhaglen brentisiaethau Llywodraeth Cymru'n cadw mynediad i lefel 2 fel llwybr dilyniant i gymwysterau lefel uwch, gan gefnogi cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig i hyfforddi a datblygu yn y sgiliau sy'n briodol ar gyfer y sector;
- Bydd casgliad newydd o gymwysterau gofal plant yn cael ei ddatblygu yn barod i'w gyflwyno ym mis Medi 2019 ar draws lefelau 2 i 5 a bydd y rhaglen brentisiaethau'n cefnogi'r gweithlu newydd a'r gweithlu presennol i gael mynediad at y cymwysterau hyn.

Er mwyn cefnogi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y sector, bydd y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS) (a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop), a ddatblygwyd i helpu i gynyddu capasiti a gallu o fewn y sector gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar neu drwy ddarparu cymorth i ymarferwyr presennol wella'u sgiliau ar draws lefelau 2 a 3. Gan adeiladu ar y cyflawniad hwn, mae fy swyddogion yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio Cronfa Gymdeithasol Ewrop i sicrhau bod y rhaglen yn ategu ac yn gwella'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael drwy gyfrwng prentisiaethau a rhaglenni sgiliau eraill ac yn parhau i gefnogi ymarferwyr preennol i wella ac ehangu eu lefelau sgiliau.

Rydym wedi bod yn gweithio hefyd ar ffyrdd newydd o annog amrywiaeth ar draws y gweithlu ac wedi cynnal y prosiect Childcare Works mewn partneriaeth â Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA). Mae Childcare Works yn targedu'r rhai sy'n economaidd anweithgar ar hyn o bryd ond sydd â'r sgiliau a'r nodweddion personol cywir i weithio gyda'n plant ifanc. Mae nifer o ganlyniadau llwyddiannus wedi deillio o'r prosiect ac mae ail gam yn cael ei ystyried.

Mae'r sector yn economi gymysg sy'n cynnwys sefydliadau preifat a thrydydd sector yn ogystal â rhai yn y sector cyhoeddus. Yn y pen draw sefydliadau preifat a thrydydd sector sydd i benderfynu beth yw'r ffordd orau o greu swyddi yn eu busnesau a recriwtio a hyfforddi eu gweithlu

Fodd bynnag, mae creu swyddi yn y sector yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ac mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yn llawn yr heriau ariannol y mae'r sector yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn yr hinsawdd economaidd hon. Dyna pam mae'r cynllun gweithlu deng mlynedd yn darparu ymrwymiad i flaenoriaethu buddsoddiad yn y sector yn nhymer y Cynulliad hwn

Rwy'n gweithio gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet ar yr ysgogwyr sydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi twf busnes yn y sector, er enghraifft, rwy'n cynnal trafodaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid am fwy o Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach i'r sector gofal plant ac mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cynnig arian grant o £100,000 i gefnogi busnesau newydd a meithrinfeydd presennol i ehangu.

Byddwn yn parhau i fonitro sut y gellir gwella'r cynlluniau hyn i gynorthwyo'r sector yn y ffordd orau i allu manteisio'n llawn ar ymrwymiad y cynnig gofal plant.

### **Argymhelliad 37**

Bod Llywodraeth Cymru, yn unol ag argymhellion Comisiynydd y Gymraeg, yn gweithio i integreiddio'r cynnig gofal plant gyda strategaeth Cymraeg 2050, yn defnyddio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i bennu targedau mewn perthynas â darpariaeth gofal plant Cymraeg, a diwygio'r ffordd o gasglu a rhannu data gofal plant i sicrhau bod yr holl gynllunio yn seiliedig ar wybodaeth ddibynadwy.

Rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn.

Cyfrifoldeb Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yw materion yn ymwneud â chynllunio ieithyddol. Mae Bwrdd Cynghori Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi dechrau ystyried sut i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllunio darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ac addysg statudol. Mae hyn yn rhedeg ar draws nifer o raglenni a mentrau ac mae'n ehangach na'r cynnig ar ei ben ei hun. Bydd mynediad at ddata gwell yn allweddol i fynd â'r gwaith hwn yn ei flaen ac rydym wedi bod yn trafod hyn gyda nifer o randdeiliaid gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg ac AGC.